OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2657 (Cy.222)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*25 Hydref 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*3 Tachwedd 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Rhagfyr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan adran 124(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraffau 21, 22 a 25 o Atodlen 9 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) ac ar ôl ymgynghori â chyrff cynrychioliadol yn unol ag adran 134(2)(**3**) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2010. Deuant i rym ar 1 Rhagfyr 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996

2.—(1) Yn rheoliad 18 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996(**4**), ar ôl paragraff (4), mewnosoder y canlynol—

"(4A) Nothing in this regulation requires the placing of any traffic sign on or near a road, or the maintenance of such signs, in a special enforcement area in Wales, for the purpose

(**1**) 1984 p.27. Diwygiwyd paragraff 21 gan baragraff 4(39)(i) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51) a chan Ran II o Atodlen 8 a pharagraff 80 o Atodlen 9 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Diwygiwyd paragraff 25 gan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Diwygiwyd adran 134(2) gan baragraff 77 o Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Gwnaed diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 1996/2489, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.